

Gwers feicro

ECAD6022C

Caitlyn Williams

2206780

Cynllun gwers meicrowers.

Strategaethau i gefnogi datblygiad iaith Gymraeg y dysgwyr

Nod y wers: Gwers thema Bwyd Bendigaid Fwyd – trafod beth rydyn wedi bod yn gwneud yn ystod y thema (ailymweld a dysgu) – trafod ac enwi grwpiau bwyd gan ganolbwyntio'n bennaf ar ffrwythau a llysiau. Disgyblion i enwi'r ffrwythau sydd yn stori 'Syrprêis Handa' a'r ansoddeiriau mae'r awdur yn defnyddio (cwestiynau agored a caeedig).

Cyflwyniad: Cwestiynu'r disgyblion am thema'r dosbarth, disgyblion yn cael y cyfle i rannu beth mae wedi dysgu, yna byddwn yn trafod ac enwi'r grwpiau bwyd ac ailadrodd enwau os mae angen. Yna byddaf yn esbonio i'r disgyblion mai'r grŵp bwyd ffrwythau a llysiau bydd canolbwyntiad y wers. (disgyblion yn enwi grwpiau bwyd – geirfa newydd iddyn nhw).

Y gweithgaredd: Ailymweld a stori 'Syrprêis Handa' a'r disgyblion i enwi ffrwythau yn y stori gan ddefnyddio cardiau fflach i'w helpu. Bydd hefyd yn ail ymweld â'r ansoddeiriau mae'r awdur yn defnyddio. Bu'r disgyblion yn trafod y ffrwythau yn y stori, ac yna thrafod sut bydden nhw yn disgrifio'r ffrwyth ar ôl iddyn nhw flasu yn flaenorol. (Defnyddio cardiau fflach gyda lluniau ffrwythau er mwyn hybu'r disgyblion a hefyd cardiau fflach yr ansoddeiriau).

I orffen: Disgyblion i rannu gyda'i chyfoedion eu hoff ffrwyth a/ neu lysieuyn yn dilyn esiampl brawddeg a rhoi rheswm os maent yn gallu, sydd yn annog y disgyblion i ddefnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio pam (modelu brawddegau fy hoff ffrwyth/lysieuyn i yw....).

Strategaethau a ddefnyddir i gefnogi datblygiad iaith y dysgwyr:

cwestiynau agored a caeedig – gofynnir cwestiynau trwy gydol y wers i hybu disgyblion i ymateb i gwestiynau yn effeithiol ac yn rhoi cyfle i gywiro iaith os oes angen wrth i'r disgyblion ymateb.

ailadrodd – cael y disgyblion i ailadrodd geiriau, neu ailadrodd beth mae'r disgyblion yn dweud yn gywir sy'n ffordd o ddrilio a hybu'r disgyblion i ddefnyddio'r geiriau yma yn ddyddiol.

ailymweld a dysgu blaenorol – gwirio dealltwriaeth y disgyblion o'r wers er mwyn gallu creu tasgau addas ar gyfer y wers ac os oes angen, addasu'r dasg er mwyn gwneud yn addas.

modelu – disgyblion yn clywed ac yn defnyddio patrymau brawddeg gywir ac yn siarad mewn brawddegau llawn.

Adnoddau addysgu



pigog

gwyrdd

hufennog

porffor

siarp

feddal

crwn

felen

llawn sudd

aeddfed

persawrus

coch

Mat geirfa

Fy hoff ffrwyth i yw.....

Fy hoff lysieuyn i yw.....

afal

ciwcymbr

banana

pinafal

oren

brocoli


moron

bresych

mefus

grawnwin


Ffrwythau a llysiau



tomato



madarch



afal



brocoli



banana



mefus



oren



pys

Gwerthusiad o'r wers

Roedd y wers yma yn wers llwyddiannus i gyd, roedd y wers hon yn gyfle i'r disgyblion ail ymweld a dysgu blaenorol, a hefyd cyfle i ddefnyddio'r holl sgiliau a geirfa newydd maen nhw wedi dysgu yn ystod yr hanner tymor. Thema'r Dosbarth oedd 'Bwyd Bendigaid Fwyd' ac felly, roedd y thema yma yn rhoi llawer o gyfle i'r disgyblion dysgu geirfa newydd, megis y grwpiau fwyd, enwi bwydydd yn y Gymraeg a llawer mwy. Roedd yna dipyn o gyfle hefyd i ddefnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio'r bwydydd gwahanol.

Yn ystod y wers yma, llwyddais i ddefnyddio cwestiynau agored a caeedig fel un strategaeth i gefnogi iaith y dysgwyr, a hefyd ar gyfer asesu dealltwriaeth y disgyblion. Mae cwestiynu yn rhan hollol bwysig wrth addysgu gan ei fod yn ffordd o asesu dealltwriaeth ond hefyd hybu iaith. Mae cwestiynau agored yn hyd yn oed mwy effeithiol oherwydd mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr siarad mewn brawddegau llawn ac ehangu eu geirfa "Mae cwestiynau o ansawdd uchel yn arwain at siarad o ansawdd uchel" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010 t.16). Roedd y disgyblion i gyd yn awyddus i ymateb i unrhyw gwestiynau, a rhannu beth maent wedi dysgu. Roedd yr holl ddisgyblion wedi diddori yn y dasg ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Roedd yr holl weithgareddau a gynlluniwyd yn llwyddiannus, mae ailadrodd hefyd yn strategaeth fe wnes i ddefnyddio er mwyn cefnogi iaith y dysgwyr, trwy hybu'r disgyblion i ddefnyddio'r eirfa gywir ac yn ffordd o drilio, mae trochi plant yn yr iaith yn effeithiol, ac wrth ailadrodd a defnyddio'r eirfa yn gyson mae'r disgyblion yn dod yn fwy hyderus gyda'r eirfa ac yn defnyddio ar lawr y dosbarth (CBAC, 2019). Credaf fod y disgyblion wedi llwyddo i enwi ffrwythau a llysiau wrth ddefnyddio'r matiau geirfa a chardiau fflach fel ffordd o hybu'r eirfa. Defnyddiwyd yr holl ddisgyblion ansoddeiriau yn effeithiol hefyd ac roedd esiampl dda o hyn wrth i'r disgyblion defnyddio'r frawddeg a oedd wedi modelu. Mae modelu iaith hefyd yn ffordd effeithiol iawn o gefnogi iaith y dysgwyr, ac fe wnes i hyn trwy fodelu'r frawddeg 'Fy hoff ffrwyth/lysieuyn i yw...' mae'n hollol bwysig defnyddio'r iaith gywir wrth addysgu, gan mae'r disgyblion yn dysgu o beth maen nhw'n clywed ac mae defnyddio'r patrymau iaith gywir ar lawr y dosbarth yn hybu datblygiad iaith y disgyblion (Estyn, 2024). Fe wnaeth y disgyblion hefyd llwyddo i dreiglo'r ansoddeiriau ar ôl 'yn' sydd hefyd yn adlewyrchu bod y dysgu blaenorol wedi bod yn llwyddiannus.

Y tro nesaf, efallai mi fyddaf yn gwahanu'r gweithgareddau, trwy efallai canolbwyntio ar un elfen o iaith yn ystod un wers, megis ansoddeiriau'r ffrwythau yn stori 'Syrprêis Handa' ac yna addysgu gwers arall i ganolbwyntio ar yr eirfa maent wedi dysgu yn ystod y thema (grwpiau bwyd) a fydd hyn yn gallu rhoi cyfle i drafod pa fwydydd sydd yn dod o dan ba grŵp fwyd. Byddai hefyd yn anelu at ailadrodd unrhyw eirfa newydd er mwyn hybu iaith y disgyblion hyd yn oed mwy, os mae'r disgyblion yn cael y cyfle i ailadrodd ac ymarfer yr eirfa, bydd y disgyblion yn fwy tebygol o gofio'r eirfa a defnyddio eto yn y dyfodol. Y bwriad oedd yn ystod y wers i gael y disgyblion i ailadrodd yr eirfa ar ôl trafod y grwpiau bwyd, ac enwi'r ffrwythau, ond gan oedd y disgyblion wedi llwyddo yn ystod y dasg nid oedd angen i mi ailadrodd yr eirfa tipyn. Maes arall i wella yw efallai cael y disgyblion i fod yn rhan o'r cwestiynu, trwy roi amser i'r disgyblion feddwl a thrafod cyn rhannu unrhyw syniadau, hybu'r disgyblion i sgwrsio yn y Gymraeg a hybu trwy ddefnyddio'r eirfa newydd.

Rhestr cyfeirio

CBAC (2019) *Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi* Ar gael yn:
https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2018-19/hsc18-19_6-9/_multi-lang/unit01/01-language-immersion-in-childcare-settings.html (Cyrchwyd 11 Mawrth 2025)

Estyn (2024) *Darpariaeth i wella medrau Cymraeg ei disgyblion* Ar gael yn:
<https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/darpariaeth-i-wella-medrau-cymraeg-ei-disgyblion/> (Cyrchwyd 11 Mawrth 2025)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf> (Cyrchwyd 11 Mawrth 2025)